

NODIADAU

GWERS TGAU OPEN DOORS:

# BETH YW ERLEDIGAETH? PAM Y MAE'N BROBLEM?

**NOD:** Cyflwyno'r cysyniadau o ryddid crefyddol ac erledigaeth, ac archwilio pam y mae hyn yn broblem.

**Bydd y wers hon yn bodloni gofynion gwahanol gwricwla fel a ganlyn:**

**AQA:** Sut mae eglwysi Cristnogol yn ymateb i erledigaeth. Materion yn ymwneud â chydraddoldeb, rhyddid crefydd a chred yn cynnwys rhyddid mynegiant crefyddol. Crefydd a chred yn achosi rhyfel a thrais yn y byd cyfoes.

**EDEXCEL:** Rôl a phwysigrwydd yr Eglwys yn y gymuned fyd-eang: sut a pham mae'n gweithio i hyrwyddo cymod a'r problemau a brofir gan yr Eglwys pan gaiff ei herlid.

**OCR:** Sut y caiff yr Eglwys ei herlid yn yr 21ain ganrif.

**WJEC EDUQAS:** Enghraifft o wrthdaro rhwng argyhoeddiad personol a chyfreithiau gwlad. Sensoriaeth, rhyddid mynegiant crefyddol

## DISGWYLIADAU'R WERS

P'un bynnag a ydych yn gyfarwydd ag addysgu ynteu'n newydd i waith mewn ysgol, mae'n bwysig pennu disgwyliadau ar gyfer eich gwers o'r dechrau. Mae hyn yn arbennig o hanfodol wrth siarad am ffydd gan y gallai fod yn fater emosiynol i rai.

Efallai yr hoffech ddechrau gyda chyflwyniad fel yr un isod er mwyn nodi'n glir beth yr ydych yn ei ddisgwyl gan y disgyblion.

Helo, ____________________ yw fy enw i. Heddiw, fel rhan o ofynion eich TGAU rydyn ni'n mynd i siarad am erledigaeth grefyddol.

Nawr, rwy'n gwybod y gall siarad am ffydd fod yn fater sensitif oherwydd, yn aml, bydd gan bawb ohonom brofiadau a safbwyntiau gwahanol. Fel rhan o'n sesiwn ni heddiw byddwn yn gofyn am eich sylwadau chi ac yn gofyn i chi i wneud rhywfaint o waith gyda phartner ac mewn grŵp.

Ar y dechrau'n deg, rydw i'n mynd i ddweud yn glir iawn beth yw disgwyliadau'r sesiwn yma. Rwy'n disgwyl i bob aelod o'r dosbarth:

- Wrando ar ei gilydd
- Parchu ei gilydd – hyd yn oed os oes gennych chi farn wahanol
- Cymryd rhan weithredol yn y sesiwn – cymryd rhan ym mhob elfen



© Hawlfraint 2023 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

Open Doors



NODIADAU

# GWEITHGAREDD I DDECHRAU

## CYFLWYNIAD I ERLEDIGAETH / *5 MUNUD*

**Cyflwynwch fater rhyddid crefyddol – gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu eu diffiniad nhw eu hunain o'r hyn maen nhw'n meddwl y gallai hyn ei olygu. Gofynnwch i'r myfyrwyr am adborth.**

**Efallai y byddwch am ddefnyddio'r datganiad isod o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol i roi diffiniad cynhwysfawr.**
*Rhyddid crefyddol:* Yr hawl i arddel pa grefydd bynnag y mae rhywun yn ei dewis.

*"Y mae gan bawb hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd; fe gynnwys hyn ryddid iddynt newid eu crefydd neu eu cred, a rhyddid hefyd, naill ai ar eu pen eu hunain neu gydag eraill, yn gyhoeddus neu'n breifat, i amlygu (neu arddel) eu crefydd neu gred trwy addysgu, arddel, addoli a chadw defodau."*
**Y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol .**

---

# GWEITHGAREDD 1

## CYFLWYNIAD I ERLEDIGAETH / *5 MUNUD*

**Anogwch eich disgyblion i gymryd rhan yn y cwis hwn trwy godi eu dwylo, clapio neu weiddi Hwrê am yr ateb cywir.**

**CWIS**

**1. Faint o boblogaeth y byd sy'n dioddef erledigaeth o achos eu crefydd?**
- **a.** 11%
- **b.** 22%
- **c.** 33%

Yn ôl adroddiad* a baratowyd ar gyfer Swyddfa Dramor y Deyrnas Unedig ac a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019, mae tua traean o boblogaeth y byd yn wynebu rhyw fath o erledigaeth grefyddol.

**Adolygiad Annibynnol Esgob Truro ar gyfer Ysgrifennydd Tramor y DU o Gefnogaeth y Swyddfa Dramor a Chymanwlad i Gristnogion sy'n cael eu Herlid*

**2. Pa grefydd sy'n profi'r erledigaeth fwyaf ledled y byd?**
- **a.** Iddewiaeth
- **b.** Cristnogaeth
- **c.** Islam

Yn ôl yr un adroddiad, mae'r rhan fwyaf gyrff anllywodraethol (NGOs) yn amcangyfrif mai yn erbyn Cristnogion mae 80% o'r holl erlid ar grefyddau'r byd.

**3. Pa wlad yw'r lle mwyaf peryglus i fod yn Gristion?**
- **a. Affganistan**
- **b. Gogledd Corea**
- **c. Syria**

Ateb: Gogledd Corea. Dewch â'r adran hon i ben trwy ddangos fideo **Rhestr Gwylio'r Byd Open Doors 2021 – Y 10 Uchaf***

**Ar gyfer cynulleidfa o Gristnogion y cafodd y fideo hwn ei baratoi. Felly efallai yr hoffech esbonio ar y dechrau ei fod wedi'i recordio gan sefydliad Cristnogol er mwyn helpu Cristnogion i ddeall beth yw erledigaeth.*



© Hawlfraint 2023 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984



NODIADAU

# GWEITHGAREDD 2

## GOLWG AR OGLEDD COREA / *20 MUNUD*

**Ar ôl gwylio'r fideo, gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu o leiaf 5 ffordd wahanol mae Cristnogion yn cael eu herlid.**

- Ymosodiadau treisgar
- Eglwysi'n cael eu bomio
- Cartrefi'n cael eu dinistrio
- Cael eich arestio/carcharu
- Gorfod cadw'ch ffydd yn gyfrinach – dim rhyddid
- Cael eich anfon i wersyll llafur
- Gorfod aberthu swyddi, sicrwydd, teulu
- Cael eich cyhuddo ar gam o gabledd
- Cael eich herwgipio
- Cael eich gorfodi i droi at grefydd arall
- Cael eich dienyddio
- Cael eich gweld fel dinasyddion eilradd

**Nid yw'r rhain ar y fideo, ond gallech ddewis sôn amdanynt:**
- Cael eich gwylio gan yr awdurdodau
- Methu cael addysg neu waith
- Eich teulu'n troi yn eich erbyn
- Eich amddifadu o hawliau sylfaenol fel cymorth neu driniaeth feddygol

**Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn parau i ddarllen y daflen wybodaeth a chydweithio i ateb y cwestiynau isod.**

**CWESTIYNAU AM OGLEDD COREA**
**Pa grefyddau sy'n gyfreithlon yng Ngogledd Corea?**
Dim un – mae'n rhaid i bawb addoli'r teulu Kim.

**Pam y mae Cristnogion yn cael eu herlid yng Ngogledd Corea?**
Oherwydd eu bod yn dewis addoli Duw yn hytrach na'r teulu Kim.

**Pwy yw'r bygythiad mwyaf i bobl sy'n dewis bod yn Gristnogion yn y dirgel?**
Cymdogion – credir bod tua thraean o boblogaeth y wlad yn sbïwyr ar ran y llywodraeth.

**Sut mae Cristnogion yn cael eu herlid yng Ngogledd Corea?**
Mae sbïwyr yn eu gwylio, maent yn cael eu harestio, eu curo, eu hanfon i wersylloedd llafur a'u lladd.

**Os oes amser, gwyliwch fideo Kim Sang Hwa ynglŷn â dod o hyd i Feibl wedi'i guddio.**

**Dewch â'r rhan hon i ben trwy ofyn i'r disgyblion ystyried a fyddent yn fodlon risgio arddel crefydd yn y dirgel yng Ngogledd Corea.**



© Hawlfraint 2023 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984



NODIADAU

# GWEITHGAREDD 3

**PAM Y MAE CRISTNOGION YN CAEL EU HERLID? /** *20 MUNUD*
**Un enghraifft yw Gogledd Corea, ond mae llawer o wahanol resymau pam y mae Cristnogion yn cael eu herlid am eu ffydd.**

**TASG CYSYLLTU:** Rhowch daflenni gwybodaeth am chwe gwlad yma a thraw yn yr ystafell. Gofynnwch i'r disgyblion fynd o gwmpas yr ystafell i ddarllen y wybodaeth ac yna geisio cysylltu'r rhesymau dros erlid Cristnogion â'r gwledydd cywir.

Efallai yr hoffech wneud hyn mewn parau neu mewn grwpiau bach gan ddweud wrth ei gilydd beth maent wedi ei ddysgu

**Mewn rhai gwledydd, mae'r arweinwyr eisiau cael eu trin fel Duw – mae Cristnogion yn gwrthod gwneud hyn ac felly maent yn cael eu gweld fel gelynion i'r wladwriaeth.**
- Gogledd Corea.

**Mae rhai gwledydd yn mynnu mai'r un peth yw crefydd a hunaniaeth genedlaethol. Felly, maent o'r farn bod Cristnogion yn gwrthod eu gwlad a'r hyn y mae'n ei olygu i berthyn i'r wlad. Mae hyn yn warth ac yn gallu gwneud pobl yn ffyrnig.**
- India
- Affganistan

**Mae Cristnogion yn gallu bod yn dargedau hawdd – yn aml, gwelir Cristnogaeth fel crefydd Orllewinol, er iddi gychwyn yn y Dwyrain Canol. Mewn nifer o wledydd mae bod yn Gristion yn golygu perthyn i'r dosbarth cymdeithasol isaf sy'n golygu addysg wael, llai o gyfleoedd gwaith a chael eich trin fel dinesydd israddol.**
- Yr Aifft

**Mae rhai llywodraethau'n ceisio dal eu gafael ar rym trwy hybu unffurfiaeth genedlaethol a rheoli pob crefydd. Felly, weithiau caiff Cristnogion a gwasanaethau Cristnogol eu gwylio a gellir eich cosbi am ddweud unrhyw beth yn groes i'r llywodraeth.**
- Tsieina

**Credir bod troi at Gristnogaeth yn golygu gwrthod y grefydd sy'n dderbyniol yn eich cymuned/gwlad – gall hyn gael ei gyfrif yn benderfyniad ymosodol ac mae pobl yn aml yn ymateb i hynny mewn ffordd ymosodol.**
- Algeria

---

# ADOLYGU

*5 MUNUD*
- **Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n gallu cofio'r diffiniad o "rhyddid crefyddol".**
- **Dewch â'r sesiwn i ben trwy wahodd y disgyblion i ysgrifennu ateb sy'n esbonio pam y mae rhyddid crefyddol yn bwysig.**



© Hawlfraint 2023 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984



# TAFLEN FFEITHIAU GOGLEDD COREA



**Yn 2023, mae Gogledd Corea wedi pasio Affganistan ar Restr Gwylio'r Byd Open Doors fel y lle mwyaf peryglus i fod yn Gristion. Mae llawer o Gristnogion yn gorfod cadw'u ffydd yn gyfrinach - hyd yn oed oddi wrth eu teuluoedd eu hunain.**

Mae Open Doors yn amcangyfrif bod tua 400,000 o Gristnogion yng Ngogledd Corea: allan o boblogaeth o 25.7 miliwn. Mae'n anodd iawn gwybod faint yn union o gredinwyr sy'n byw yng Ngogledd Corea gan eu bod yn gorfod cadw'u ffydd yn gwbl gyfrinachol. O'r 400,000 hynny, mae Open Doors yn amcangyfrif bod 50,000-70,000 o Gristnogion yn cael eu carcharu oherwydd eu ffydd ar hyn o bryd mewn gwersylloedd llafur erchyll. Mae'n annhebygol y cânt eu rhyddhau byth.



**Pam mae Cristnogion yn cael eu herlid?**

Mae unrhyw un sy'n credu mewn awdurdod uwch na'r teulu Kim unbenaethol yn cael ei gyfrif yn elyn i'r wladwriaeth. Mae Kim Jong-un a'i deulu'n cael eu haddoli fel duwiau, ac mae'n rhaid codi posteri o Kim Jong-un ym mhob cartref ac ysgol. Mae dilynwyr unrhyw ffydd mewn perygl mawr o gael eu lladd neu eu carcharu fel troseddwyr gwleidyddol – ac, os cânt eu darganfod, mae eu teuluoedd yn cael eu carcharu hefyd.

Nid yw llawer o Gristnogion Gogledd Corea yn gallu sôn wrth eu teuluoedd, hyd yn oed, am eu ffydd. Doedd Sang-Hwa ddim yn sylweddoli bod ei mam a'i thad yn gredinwyr nes ei bod bron yn ei harddegau. "Doedd fy rhieni ddim yn gallu rhannu straeon Cristnogol â ni'r plant.
Mae'n rhy beryglus. Gall plentyn fradychu ffydd ei rieni ar ddamwain." Weithiau mae athrawon hyd yn oed yn gofyn i blant ifanc achwyn ar eu rhieni. Byddai'r canlyniadau'n erchyll pe bai pobl yng Ngogledd Corea yn gwybod eich bod yn Gristion.

"Mae gennym ni ddywediad yng Ngogledd Corea," meddai Sang-Hwa. "'Pan fydd tri ohonom yn cyfarfod, mae un ohonom yn sbïwr a bydd yn adrodd wrth y llywodraeth.'" Mae awdurdodau Gogledd Corea yn cadw rheolaeth trwy gyflogi rhwydwaith enfawr o sbïwyr. Felly, ychydig iawn o amser sydd pan nad yw pobl a'u gweithgareddau'n cael eu monitro.

Os yw'r llywodraeth yn darganfod eich bod yn Gristion, mae'n debygol y cewch eich anfon i wersyll llafur. Dydi'r rhan fwyaf o garcharorion byth yn gadael, ac mae'r amodau'n echrydus gyda llafur gorfodol, arteithio a phrinder bwyd yn gyffredin.

Mae'n anodd gorbwysleisio faint o afael sydd gan awdurdodau Gogledd Corea ac i ba raddau maen nhw'n mynnu ufudd-dod ac arweinydd-addoliad. Bu cynnydd yn nifer y cyrchoedd heddlu i ganfod ac arestio dinasyddion â 'meddyliau cyfeiliornus', ac mae'r wlad gyfan yn cael ei rheoli trwy godi ofn mawr ar ei phobl yn fwriadol.



© Hawlfraint 2023 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984



# GOGLEDD COREA

## PAM MAE CRISTNOGION YN CAEL EU HERLID?





Mae Cristnogion yn cael eu gweld fel gelynion i'r wladwriaeth gan eu bod yn meiddio credu mewn awdurdod sy'n uwch na'r teulu Kim. Mae cyfundrefn Gogledd Corea yn mynnu teyrngarwch ac ufudd-dod llwyr ac mae'r teulu Kim yn cael eu haddoli fel duwiau. Rhaid hongian portreadau o'r teulu ym mhob cartref ac ysgol. Y geiriau cyntaf y mae'n rhaid i rieni eu dysgu i'w plant yw 'Diolch, Ein Tad Kim Il-sung'.

**opendoorsuk.org**
inspire@opendoorsuk.org
+44 (0)1993 460015

**@opendoorsuk**
**Open Doors UK,** PO Box 6,
Witney, Oxon, UK, OX29 6WG

© Hawlfraint 2023 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

Open Doors





# INDIA

## PAM MAE CRISTNOGION YN CAEL EU HERLID?



Arweinir llywodraeth India gan blaid genedlaetholgar Hindŵaidd y BJP sy'n credu bod Hindŵaeth yn rhan hanfodol o hunaniaeth genedlaethol India ac sy'n aml yn anwybyddu ymosodiadau ar bobl o grefyddau eraill.





© Hawlfraint 2023 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984




# AFFGANISTAN

## PAM MAE CRISTNOGION YN CAEL EU HERLID?



Rheolir gwlad Affganistan gan y grŵp Islamaidd eithafol, y Taliban. Egwyddorion Islamaidd sy'n penderfynu sut mae'r wlad yn cael ei llywodraethu a beth a ganiateir. Mae bod yn Affganiad yn golygu bod yn Foslem – does dim opsiwn arall. Credir bod pobl sy'n troi at Gristnogaeth yn ymwrthod â'u hunaniaeth genedlaethol ac felly'n dwyn gwarth ar Islam.



**opendoorsuk.org**
inspire@opendoorsuk.org
+44 (0)1993 460015

**@opendoorsuk**
**Open Doors UK,** PO Box 6,
Witney, Oxon, UK, OX29 6WG

© Hawlfraint 2023 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

Open Doors



# YR AIFFT

## PAM MAE CRISTNOGION YN CAEL EU HERLID?





Mae'r Aifft yn genedl Islamaidd gref. Mae bron 90 y cant o boblogaeth yr Aifft yn Fwslimiaid Sunni.

Mae'r Arlywydd al-Sisi wedi galw ar ddinasyddion y wlad i frwydro yn erbyn radicaliaeth ac i gyflwyno diwygiadau i ddysgeidiaeth Islam. Fodd bynnag, mewn ardaloedd gwledig a thlawd yn arbennig, mae imamau radical a charfannau Islamaidd llai goddefgar yn ennill eu plwyf. Caiff Cristnogion eu cyfrif yn dargedau hawdd, gan eu bod yn lleiafrif ac bod ganddynt lai o rym. Mae'r llywodraeth yn ceisio gwrth-droi'r duedd hon – heb lawer o lwyddiant hyd yma.

**opendoorsuk.org**
inspire@opendoorsuk.org
+44 (0)1993 460015

**@opendoorsuk**
**Open Doors UK,** PO Box 6,
Witney, Oxon, UK, OX29 6WG

© Hawlfraint 2023 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

Open Doors



# TSIEINA

## PAM MAE CRISTNOGION YN CAEL EU HERLID?



Nod Plaid Gomiwnyddol Tsieina yw gwarchod ei phŵer trwy sicrhau undod cenedlaethol – gan gynnwys rheoli pob crefydd. Ers i'r Blaid Gomiwnyddol gymryd drosodd y gwaith o weithredu'r rheoliadau ar grefydd, mae grwpiau crefyddol yn cael eu trin yn fwy llym o lawer. Caiff Cristnogion eu targedu'n benodol gan mai nhw yw'r grym cymdeithasol mwyaf yn Tsieina nad yw'n cael ei reoli gan y wladwriaeth.



**opendoorsuk.org**
inspire@opendoorsuk.org
+44 (0)1993 460015

**@opendoorsuk**
**Open Doors UK,** PO Box 6,
Witney, Oxon, UK, OX29 6WG


© Hawlfraint 2023 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984


Open Doors



# ALGERIA

## PAM MAE CRISTNOGION YN CAEL EU HERLID?





Mae Cristnogion o gefndir Mwslimaidd o dan bwysau gan eu teuluoedd a'u cymunedau ac mae hynny'n ei gwneud yn anodd iddynt fyw eu ffydd. Mae'r wladwriaeth yn ychwanegu at y pwysau trwy gyfyngu ar ryddid crefyddol trwy fiwrocratiaeth gyfreithiol a gweinyddol. Yn aml, os oes rhywun o gefndir Mwslimaidd yn troi'n Gristion, mae'r teulu'n ei erlid. Dywed arweinwyr eglwysig fod rhai menywod o gefndir Mwslimaidd sydd wedi troi at Gristnogaeth yn cael eu caethiwo yn y tŷ gan eu teuluoedd pan ddônt i wybod am eu ffydd.

**opendoorsuk.org**
inspire@opendoorsuk.org
+44 (0)1993 460015

**@opendoorsuk**
**Open Doors UK,** PO Box 6,
Witney, Oxon, UK, OX29 6WG

© Hawlfraint 2023 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

Open Doors